



Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â threfniadau ar gyfer Sul y Cofio. Mi fydd Cadeirydd y Cyngor, y Cyngorydd Annwen Daniels yn gosod torch ar y Cof Golofn yn Rhiwbryfdir ac yr Ysbyty Coffa a'r Cyngorydd Mel Goch ap Meirion yn gosod torch ar y Gof Golofn yn Llan Ffestiniog.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Cafwyd cais drwy lythyr oddi wrth Y Dref Werdd yn gofyn am lythyr o gefnogaeth i'w cais am arian grant tuag at sefydlu man gwryd cymunedol yn Hafan Deg.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i gais Y Dref Werdd.

Cafwyd cais gan Blaenau Bendigedig i gynnal groto Sion Corn yn y Siambr eleni ar Noson Goleuo Stiniog

PENDERFYNIAD: I ganiatáu hyn mewn egwyddor ond i'w drafod yn fwy manwl mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Mwynderau i'w gynnal nos Iau 17<sup>eg</sup> o Dachwedd.

Cafwyd gwybodaeth bod hwfer y Cyngor wedi malu a bod angen cael un newydd.

PENDERFYNIAD: I ganiatáu hyn

9721/11/16 MATERION YR HEDDLU

Roedd Delyth Edwards ac Emma Jones, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedwyd bod y mwyafrif helaeth o bobl ifanc yr ardal yn mwynhau eu hunain yn ddiniwed a heb achosi unrhyw ddifrod ond bod un neu ddau wedi eu gweld yn dringo ar dô'r cysgodfan yn Heol yr Eglwys. Er mwyn rhwystro hyn rhag ofn iddynt gael damwain difrifol bydd angen i'r Cyngor Tref ystyried rhoi paent wrth fandaliaeth ar y gysgodfan.

Teimlir hefyd y byddai'n beth da i gysylltu unwaith eto gyda Threnau Arriva a gofyn iddynt ail ystyried eu gwrthwynebiad i osod camerâu cc ar eu stesion.

Dywedwyd bod camerâu cc y Cyngor Tref o help mawr i'r heddlu mewn achosion o drosedd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9722/11/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION  
CYFARFOD ARFEROL 13<sup>eg</sup> HYDREF 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cyngorydd Kevin Baldwin yn cynnig a'r Cyngorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

Apêl y Pabi	£	51.00	Rhif Siec.	002333
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.00	Rhif Siec.	002334
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	113.38	Rhif Siec.	002335
Owain Aeron (Torri gwair)	£	830.00	Rhif Siec.	002336
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	36.76	Rhif Siec.	002337
J P Farrington (Garddio)	£	2920.33	Rhif Siec.	002339
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002340
Harrison EDS (Polyn fflag)	£	1574.40	Rhif Siec.	002341
Information Commissioners Office	£	35.00	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffon)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	182.50	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9724/11/16 CAIS ARIANNOL

Dawns i Bawb	£	100.00	Rhif Siec.	002342
--------------	---	--------	------------	--------

9725/11/16 PWYLLGOR CYNLLUNIO

Derbyn argymhellion Pwyllgor Cynllunio Nos Fercher 20<sup>fed</sup> Hydref 2016

ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO  
NOS FERCHER 19<sup>EG</sup> HYDREF 2016  
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:

Cynghorwyr:

Mel Goch ap Meirion-Cadeirydd  
 Annwen Daniels  
 Bedwyr Gwilym  
 Erwyn Jones  
 Kevin Baldwin  
 Will G Roberts  
 Gareth W Jones

Ymddiheuriad:

Cynghorwyr:

Ronwen D Roberts  
 Rory Francis

**DATGAN DIDDORDEB**

**Ni fu i unrhyw gynghorydd Datgan Diddordeb**

**Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri**

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Awdurdod wedi paratoi Cytundeb Cyflawni a gytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amserlen ar gyfer ei baratoi, a sut bydd yr Awdurdod yn cynnwys partïon a diddordeb yn y broses. Y dasg gyntaf yw gofyn am farn rhanddeiliaid allweddol ar yr Adroddiad Adolygu terfynol a'r ddogfennaeth gefnogol.

Wrth ystyried y prif bynciau ar gyfer newid yn yr Adroddiad Adolygu o'r Cyn llun Datblygu Lleol bu i'r Cynghorwyr ymateb i'r ffurflen ymgynghoriad fel a ganlyn –

1. Penderfynu ar ofynion y cynllun tai newydd a sut y gellir diwallu'r rhain trwy ddyrannu safleoedd newydd, addasu ffiniau datblygu tai a chyfraniad hap-safleoedd  
**Dim angen mwy o safleoedd datblygu yn ein hardal ni. Digon o sgôp datblygu yn bodoli'n barod.**
2. Diwygio'r Polisiâu Tai a'r testun cysylltiedig fel bo angen  
**Dim Angen.**
3. Ystyried goblygiadau unrhyw bolisiau a chynigion gydag elfen ofodol a diweddarau'r map cynigion yn unol â hynny.  
**Na mewn ystyriaeth ac ardal ni yn unig.**
4. Dangos dynodiad Ardal Fenter Eryri ar y Map Cynigion a chyflwyno polisi cadarnhaol a galluogi newydd i reoli datblygiadau newydd o fewn yr Ardal Fenter  
**Cytuno a chrosawu unrhyw ddatblygiad sy'n creu gwaith.**
5. Adolygu polisiâu sy'n ymdrin â mathau o lety a pholisiau cyd-destunol cysylltiedig  
**Angen adolygu'r polisi er mwyn ystyried datblygiadau newydd mewn gwersyllfa e.e. 'glamping ac 'eco-pods' sydd yn mynd i greu cyfleoedd gwaith a hybu mentergarwch sydd yn denu mwy o ymwelwyr i'r ardal.**
6. Diwygio'r polisi manwerthu i roi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddiau amgen  
**Ddim yn cytuno gyda rhoi caniatâd i drosi siop ar y stryd fawr yn dŷ ond yn cytuno y dylai adfeilion cefn gwlad gael eu trosi at ddefnydd newydd.**
7. Unrhyw sylw arall ar gynnwys yr Adroddiad Adolygu neu'r dogfennau cefnogol  
**Na**

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cilio

9726/11/16 PWYLLGOR MWYNDERAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau Nos Iau 20<sup>fed</sup> Hydref 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU

NOS IAU 20<sup>fed</sup> HYDREF 2016

YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:

Cynghorwyr:

Annwen Daniels  
Mel Goch ap Meirion  
Rory Francis  
Kevin Baldwin  
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:

Cynghorydd:

Bedwyr Gwilym  
Erwyn Jones  
Will G Roberts  
Ronwen D Roberts  
Mandy Williams-Davies

**DATGAN DIDDORDEB**

**Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb**

**1. Caeau Chwarae**

Cafwyd gwybodaeth nad oes unrhyw nam newydd ar y caeau chwarae yn ôl adroddiad yr archwiliwr caeau chwarae mis yma. Mae'r gwaith sydd bellach wedi ei adrodd i'r Cyngor mewn llaw.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth

**2. BT**

Cafwyd gwybodaeth bod BT yn bwriadu cau 5 bocs ffon yn yr ardal. Ni wnaethpwyd unrhyw alwad ffôn o'r bocsys yn Talwaenydd a Dorfil, 3 galwad yr un o'r bocsys yn Rhiwbryfdir a ger y Don a 7 galwad o'r bocsys yn Nhanygrisiau yn ystod y deuddeg mis diwethaf

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth

**3. Polyn Fflag**

Cafwyd gwybodaeth, yn dilyn trafodaethau gyda'r cwmni fydd yn darparu'r polyn ei bod yn bosib cael plât fydd yn defnyddio'r hen dyllau boltiau fel na fydd unrhyw nam ar y palmant yn Niffwys.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth.

**4. Goleuadau Nadolig**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor llawn i ychwanegu at y goleuadau Nadolig eleni, cafwyd gwybodaeth bod newidiadau i'r drefn o'u gosod. Cefnffordd dan ofal Llywodraeth Cymru yw'r A470 sydd yn rhedeg drwy'r dref ac rydym yn gosod goleuadau Nadolig ar golofnau golau stryd o Dalwaenydd hyd at Ffordd Heulog yn Llan Ffestiniog. Erbyn hyn mae gwybodaeth wedi dod gan Gyngor Gwynedd bod angen caniatâd i osod y goleuadau ar gefnffordd. Mae cais am fwy o wybodaeth wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth.

**5. Parc Sglefrio**

Cafwyd gwybodaeth bod gobeithion i'r goleuadau gael eu rhoi ymlaen yn ystod yr wythnos. Cafwyd gwybodaeth hefyd bod manylion ar gyfer adfer y tir oedd dan ofalaeth yr Angry Scones Racing Team mewn llaw a gobeithir ei yrru allan at dri chontractwr lleol i gael prisiau a bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n fuan.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth.

**6. Trydan y Pafiliwn**

Cafwyd gwybodaeth bod mitar newydd yn cael ei osod yno cyn hir a gobeithir i hyn arbed y biliau uchel sydd yno ar hyn o bryd.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth

**7. Cysgu ar y Stryd**

Bu i ni dderbyn holiadur gan Gyngor Gwynedd ynglŷn y nifer sydd yn cysgu ar y stryd yn ein hardal

**Argymell:** Nid oedd gan unrhyw gynghorydd wybodaeth am unrhyw berson yn cysgu ar y stryd yn ein hardal ac i lenwi'r holiadur i adlewyrchu hyn.

**8. Cof Golofn Ffestiniog**

Cafwyd gwybodaeth bod dau gynghorydd yn bwriadu trin y Gof Golofn er mwyn cael gwared â'r sment sydd wedi rhedeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi gofyn i'r garddwr dorri'r gwair a thacluso'r ardd erbyn Sul y Cofio. Mae'r cwmni sydd yn glanhau'r llochesi bws yn barod wedi cael eu cyflogi i olchi'r Gof Golofn.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth.

## 9. Pobol o Rawson

Cafwyd gwybodaeth y bydd Patricia Alejandra Lorenzo Harris yng nghwmni ei ffrind Marisa Conde, yn ymweld ar ardal ar 3<sup>ydd</sup> a 4<sup>ydd</sup> o Dachwedd. Byddent yn aros gyda'r Cynghorydd Rory Francis. Cafwyd gwybodaeth eu bod wedi cael gwahoddiad i wrando ar Gôr y Brythoniaid yn ymarfer ar y nos Iau.

**Argymell:** I drefnu iddynt gael mynd ar y Rheilffordd Ffestiniog ac i ymweld â Cheudyllau Llechwedd. I drefnu paned a chacen yn DeNiros am 2.00 o'r gloch pawns dydd Gwener 4<sup>ydd</sup> o Dachwedd gyda chroeso i unrhyw un sydd yn dymuno cwrdd â nhw i ddod draw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

9727/11/16 PENODI CYNGHORYDD AR BWYLLGORAU  
Penodi'r Cynghorydd Mari Rees ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref

PENDERFYNIAD: I benodi'r Cynghorydd Mari Rees ar bob un o Bwyllgorau'r Cyngor Tref.

9728/11/16 CYFRIFON Y CYNGOR TREF 2015 - 2016  
Bu i'r Cyngor dderbyn adroddiad yr archwilyr allanol BDO ar 3ydd o Dachwedd er bod yr adroddiad i fod i law cyn diwedd mis Medi. Roedd yn adroddiad lan wrth ystyried y cyfrifon, ond bu i BDO dynnu sylw'r Cyngor nad yw'n ddigonol i'r Cyngor benodi Mr John Roberts fel Archwilyr allanol yn ei gyfarfod blynyddol, mae angen ysgrifennu at Mr Roberts pob blwyddyn gan nodi gofynion y Cyngor Tref parthed y cyfrifon. Bu i BDO hefyd dynnu sylw at y ffaith nad oes wefan gan y Cyngor Tref. Mae hyn, wrth gwrs oherwydd diffyg y cwmni a benodwyd yn 2014 i greu gwefan. Erbyn hyn mae cwmni arall wedi ei benodi a gobeithir i'r wefan fod yn fyw yn fuan yn y flwyddyn newydd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i yrru llythyr i Mr John Roberts yn nodi gofynion y Cyngor Tref ynglŷn ag archwilio'r cyfrifon.

9729/11/16 CEISIADAU CYNLLUNIO  
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/758  
Ymgeisydd Ffion Williams  
Tir ger 8 Maes y Coed, Ffestiniog  
Codi un tŷ fforddiadwy

**Dim Gwrthwynebiad gyda'r amod na fydd dim mynediad cerbydol ar unrhyw adeg i'r safle o gyfeiriad neu drwy Heol yr orsaf.**

**Cynigir sylwadau -**

**Pam na ellir cysylltu i'r brif system carthffosiaeth gyfagos (Maes y coed) ?? Yn opsiwn llawer gwell na'r tanc septig fydda'n arllwys i'r afon, bydd angen cloddio o dan y rheilffordd i gysylltu â honno pryn bynnag.**

**Pryder ynglŷn â'r afon sy'n rhedeg drwy'r cylfat o dan y rheilffordd yn agos i'r safle. Ddim yn sicr i ba gyfeiriad yn union mai'n rhedeg, ond yn amlwg nid yn ddoeth adeiladu arni neu'n agos ati.**

**Y ffurflen gais yn datgan ddim coed ar y safle, nifer o goed wedi eu cwmpo yno yn barod.**

## CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1136/03/LL  
Ymgeisydd South Snowdonia Search and Rescue Team  
Tir ger Y Ddôl  
Tanygrisiau  
Blaenau Ffestiniog  
Codi adeilad newydd ynghyd a chreu manau parcio cysylltiol ar gyfer Canolfan  
Tîm Achub a Chwilio De Eryri  
**Caniatáu**
2. Cais Cynllunio Rhif C16/1162/03/LL  
Enw'r Ymgeisydd C Grimshaw  
Bryn Wennol  
Cwm Teigl  
Ffestiniog  
Codi porth  
**Caniatáu**
3. Cais Cynllunio Rhif C16/1061/03/LL  
Ymgeisydd Mr G Thomas  
Stiwio Sbensh  
Bethel  
Tanygrisiau  
Cais i ddarparu teras/balcony, darparu drws ychwanegol a ffenestri to  
**Caniatáu**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9730/11/16 RHEOLIADAU ARIANNOL  
Derbyn Rheoliadau Ariannol (Cymru) wedi eu hadolygu a'u haddasu ar gyfer  
anghenion y Cyngor Tref gan y Cyngor.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y Rheoliadau gyda newid i'r Rheol 3.2 i ddarllen -

*Rhaid i'r SAC bob blwyddyn, ac erbyn diwedd mis Ionawr man pellaf, baratoi amcangyfrifon manwl o bob  
derbyniad a thaliad, gan gynnwys y defnydd o weddillion a phob ffynhonnell ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol  
ganlynol ar ffurf cyllideb i'w hystyried gan Bwyllgor Adnoddau'r cyngor.*

9731/11/16 RHEOLAU (LWFANS) LLYWODRAETH LEOL 1976  
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2016  
Mae'r Panel Annibynnol wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â Chynghorau Tref a  
Chymuned yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r Cyngor Tref gymeradwyo'r lwfansau a gwneud  
darpariaeth yn y braesept ar eu cyfer er hwyrach na fydd unrhyw gynghorydd yn dewis derbyn  
y lwfansau. Mae'r lwfansau hyn ar gael er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystr ariannol i  
unrhyw berson fod yn gynghorydd.

### **Lwfansau Blynyddol Cynghorwyr**

Hwn yn incwm trethadwy

Pob cynghorydd yn gorfod llenwi ffurflen lwfans mynychu os yw'n hawlio'r arian ai peidio Lwfans llawn i'w gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn ystod y flwyddyn dim ond cyfartaledd gaiff ei dalu.

Bydd pob cynghorydd yn gyfrifol am adael i Gyllid y Wlad wybod am unrhyw daliadau byddent yn eu derbyn gan y Cyngor.

### **Lwfans Mynychu**

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Mynychu i bob un o'u haelodau am fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor fel a ganlyn; Mae cynghorwyr yn gymwys am naill ai lwfans mynychu neu lwfans colled ariannol, ond nid y ddau ar gyfer yr un ddyletswydd a gymeradwywyd.

- £16.23 am gyfnod o hyd at 4 awr.
- £32.46 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.

### **Lwfans Teithio a Chynhaliaeth**

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu fewn a'r tu allan i ardal y cyngor. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:

- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd
- 5c y teithiwr y filltir - tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr
- 24c y filltir - beiciau modur
- 20c y filltir - beiciau

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w haelodau ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor ar y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:

- Lwfans o £28 y diwrnod ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.
- £200 - Llundain dros nos.
- £95 - rhywle arall dros nos.
- £30 - aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

### **Lwfans Colled Ariannol**

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Colled Ariannol i bob aelod sydd wedi cael colled wirioneddol o'r fath ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y canlynol fel a ganlyn:

**Mae cynghorwyr yn gymwys am naill ai lwfans mynychu neu lwfans colled ariannol, ond nid y ddau ar gyfer yr un ddyletswydd a gymeradwywyd.**

- £30.05 am gyfnod o hyd at 4 awr.
- £60.11 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.
- £60.11 ac unrhyw swm sy'n daladwy fel sy'n briodol am gyfnod o dros 24 awr.

### **Lwfans Gofal**

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond wrth weld derbynebau'r darparwr gofal y gwneir ad-daliadau.



### Lwfans Cynghorydd

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i wneud taliad ychwanegol o hyd at £500 y flwyddyn i hyd at 3 aelod mewn cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau penodol.

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu hyd at £100 y flwyddyn i'w haelodau am gostau a gaiff eu gwario yn sgil defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati.

### Lwfans Cadeirydd

Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/gadeirydd a dirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb nhw i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno

PENDERFYNIAD: I dderbyn argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2016 ac i wneud darpariaeth are u cyfer wrth osod y braesept am 2017/2018.

### 9732/11/16 COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Cychwynnol y Comisiwn ar 13 Medi 2016 ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn - [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk). Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 5<sup>ed</sup> Rhagfyr 2016.

PENDERFYNIAD: Ei drafod ymhellach mewn Is Bwyllgor Mwynderau nos Iau 17<sup>eg</sup> o Dachwedd 2016.

### 9733/11/16 GOLEUADAU NADOLIG

Mae'r Cyngor Tref yn cyflogi Cyngor Gwynedd i osod ei goleuadau Nadolig bob blwyddyn gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu gosod ar y gefnffordd A470. Yn anffodus, eleni mae Llywodraeth Cymru wedi newid y rheolau o ran codi goleuadau ar gefnffyrdd, newid rydym ond yn awr wedi dod yn ymwybodol ohono. Y gobaith yw y byddwn yn gallu datrys y problemau a achosir gan y penderfyniad hwyr yma mewn pryd ar gyfer i'r goleuadau gael eu codi ar gyfer Noson Goleuo Stiniog.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

### 9734/11/16 YMWELWYR O RAWSON, PATAGONIA

Bu i Patricia Alejandra Lorenzo Harris yn Ffestiniog yng nghwmni ei ffrind Marisa Conde, aros yn Nhanygrisiau gyda'r Cynghorydd Rory Francis dechrau Tachwedd. Hanesydd lleol yw Patricia Alejandra, a wnaeth lawer o ymchwil am wreiddiau Cymreig Tref Rawson, prifddinas Talaith Chubut yn yr Ariannin, a arweiniodd at y trefeillio rhwng y dref honno a Ffestiniog. Roedd Patricia a Marisa yn awyddus i gwrdd efo cymaint o bobl leol â phosibl, gan fynychu digwyddiadau lleol ac yn dod â chyfarchion o ddisgynyddion y Cymry a ymfudodd i Batagonia yn yr oes a fu. Bu iddynt gael trip ar Reilffordd yr Ucheldir o Borthmadog tuag at Gaernarfon - nid oedd yn bosib teithio ar Reilffordd Ffestiniog oherwydd gwaith peiriannol - ymweld ag Aberystwyth a chwrdd â myfyrwyr oedd yn dysgu Sbaeneg a mynychu ymarfer Côr y Brythoniaid ar y dydd Iau. Bore dydd Gwener bu iddynt fynd i Geudyllau Llechwedd ac yna yn y prynhawn cael cyfle i gwrdd â phobl leol dros baned a chacen yng nghaffi DeNiros.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a diolch i Reilffordd Ffestiniog a Cheudyllau Llechwedd a DeNiros am eu haelioni. I ddiolch hefyd i'r Cynghorydd Rory Francis am roi croeso iddynt yn ei gartref.

9735/11/16 IECHYD  
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9736/11/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF  
Mae'r broses o greu gwefan y Cyngor Tref yn mynd rhagddo a'r gobaith yw y bydd y Cyngorwyr yn derbyn 'gwefan ffug' yn fuan fel y gall newidiadau gael eu gwneud cyn i'r wefan fynd yn fyw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9737/11/16 PARTNERIAETH Y PARC  
Cafwyd gwybodaeth bod Partneriaeth y Parc am geisio am Faner Werdd unwaith eto flwyddyn nesaf. Cafwyd gwybodaeth hefyd nad yw'r ddwy sgip wedi eu casglu gan y cwmni er i'r Cyngor adael iddynt wybod sawl wythnos yn ôl ein bod wedi darfod a nhw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ysgrifennu i'r cwmni sgipiau yn gofyn iddynt eu casglu cyn gynted â modd cyn i rywun gael damwain.

9738/11/16 CAEAU CHWARAE  
PARC SGLEFRIO  
**Datgan Diddordeb**  
**Cynghorydd Will G Roberts. Bu i'r cynghorydd adael y stafell drwy gydol y drafodaeth a'r penderfyniad.**  
Bu i'r Cyngor dderbyn tri phris ar gyfer gwaith gosod tarmac ar ddarn o'r Parc Sglefrio a fu yn cael ei ddefnyddio fel trac ceir modur.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn trafodaeth lawn ac wedi dilyn y drefn gywir o ddatgan diddordeb gyda'r Cynghorydd Will G Roberts allan o'r ystafell drwy gydol y drafodaeth, penderfynwyd rhoi'r prosiect i gwmni John Roberts (Ffestiniog) Ltd wneud y gwaith am bris o £10,264.00 heb gynnwys TAW.

9739/11/16 CYNGOR GWYNEDD  
Rhaglen Waith Tachwedd 2016  
A496 Pont Rhydsarn Atgyweirio parapet

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9740/11/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL  
Bu i'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies fynychu cyfarfod ynglŷn â Phrosiect Amgylchedd y Blaenau a oedd yn gyfarfod diddorol a phositif.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9741/11/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Cafwyd gwybodaeth bod y Cynghorydd Mandy Williams-Davies mewn trafodaethau ar lefel uchel a all effeithio ar Brydain gyfan i geisio newid y rheolau ar gyfer y banc olaf i adael tref. Mae hyn o ganlyniad i'r effaith ar y dref hon o fanc yr HSBC yn gadael heb sicrhau bod darpariaethau pendant mewn lle cyn cau'r gangen.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9742/11/16 CLERKS AND COUNCILS DIRECT  
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9743/11/16 THE CLERK  
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.33y.h.

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF  
NOS IAU 8<sup>fed</sup> RHAGFYR 2016  
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 8<sup>fed</sup> RHAGFYR 2016  
AR YR 1<sup>af</sup> RHAGFYR 2016**

COPIAU ARDYSTIEDIG DILYS O'R GWREIDDOL

CLERC Y DREF

CADEIRYDD